**19 Awst 2020**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymateb i Blismona Gwrthderfysgaeth: Archwiliad o gyfraniad yr heddlu tuag at adroddiad rhaglen Atal yr heddlu**

Mae’n braf darllen bod yr Arolygiaeth yn teimlo bod heddluoedd yn deall diben Atal ac yn bodloni eu rhwymedigaethau o dan eu dyletswydd Atal.

Ar ôl trafod yr arsylwadau yn yr adroddiad gyda Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, yr wyf yn fodlon bod yr Heddlu wedi ymrwymo i wella ei gydymffurfiaeth â’r rhaglen Atal ymhellach. Dywed y Prif Gwnstabl wrthyf fod presenoldeb Heddlu Dyfed-Powys ar y Panel Sianel wedi’i adolygu a’i fod nawr wedi’i benderfynu y bydd ditectif oruchwylydd o reng Arolygydd o’r uned rheoli troseddwyr ranbarthol yn bresennol ym mhob cyfarfod. Pe na bai’r Ditectif Arolygydd yn medru bod yn bresennol, bydd yn gofyn i Dditectif Ringyll â’r sgiliau priodol fynd yn ei le.

Mae fy nhîm a minnau’n parhau i weithio’n agos â chynrychiolwyr o Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchwyd drwy weithgarwch AHGTAEM er mwyn gwella’r gwasanaeth heddlu ar gyfer preswylwyr Dyfed a Phowys.